

## JONES, GARETH RICHARD VAUGHAN (1905 - 1935), newyddiadurwr

PDF Generated on: Fri, 24 Feb 2023 11:37:28 +0000

<https://yba2-prawfweb-prawfdata.llgc.org.uk/article/c14-JONE-VAU-1905>

Enw: Gareth Richard Vaughan Jones

Dyddiad geni: 1905

Dyddiad marw: 1935

Rhiant: Ann Gwenllian Jones (née Jones)

Rhiant: Edgar William Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: newyddiadurwr

Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd



Ganwyd Gareth Jones ar 13 Awst 1905 yn Eryl, Ffordd Romilly, y Barri, yr iengaf o dri o blant [Edgar William Jones](#) (1868-1953), athro ysgol, a'i wraig Ann Gwenllian (g. Jones, 1867-1965). Cafodd ei addysgu gartref gan ei fam yn gyntaf, ac wedyn mynychodd Ysgol Sir y Barri lle roedd ei dad yn brifathro. Roedd ei fam wedi gweithio fel tiwtor i wyrion y diwydiannwr [John Hughes](#) a sefydlodd dref Hugheskova (Donetz heddiw) yn yr Wcráin.

Roedd Gareth Jones yn ieithydd dawnus ac astudiodd Ffrangeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth (1922-1926) cyn ennill ysgoloriaeth i astudio Ffrangeg, Almaeneg a Rwsieg yng Ngholeg y Drindod Caergrawnt, lle graddiodd gyda dosbarth cyntaf yn 1929. Siaradai'r tair iaith yn rhugl yn ogystal â Chymraeg a Saesneg.

Ymddiddorai'n fawr mewn materion rhyngwladol, ac mewn llythyr at ei rieni yn Chwefror 1929 esboniodd ei awydd i deithio ac adrodd am y byd:

I should consider myself a flabby little coward if I ever gave up the chance of good and interesting career for the mere thought of safety. I have no thought for a man whose acceptance or judgement of a post depends on the answer to the question: Will it give me a pension?... I have come to the conclusion that the only life I can live with interest and which can really be of use is one connected with foreign affairs and with men and women of today; not with the writers of centuries ago.

([LIGC Ffeil 18](#))

Ar ôl graddio o Gaergrawnt, bu Jones yn gweithio am ychydig fisoedd ar ddesg dramor The Times, ond dywedwyd wrtho fod angen iddo gael mwy o brofiad cyn y gellid ei ystyried am swydd barhaol. Yn Ionawr 1930 aeth i weithio fel cynghorwr materion tramor i [David Lloyd George](#), g r yr oedd gan Jones barch mawr ato, a lluniodd adroddiadau ar ddatblygiadau o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig, Cynghrair y Cenhedloedd a'r Undeb Sofietaidd. Teithiodd i adrodd ar y tensiynau gwleidyddol, economaidd ac ethnig cynyddol yng nghanolbarth Ewrop, yn enwedig mewn ardaloedd y tu allan i'r Almaen newydd ond gyda phoblogaethau mawr o Almaenwyr ethnig, ac ar ddadfeiliad sefydliadau democrataidd fel y gwelwyd yn 'Etholiadau Brest' a rigiwyd yng Ngwlad Pwyl. Yn Awst 1930 ymwelodd am y tro cyntaf â Hugheskova (Stalino ar y pryd), lle gwelodd brinder bwyd ac amgylchiadau enbyd.

Daeth ei gyfnod gyda Lloyd George i ben oherwydd toriadau cyllid, ond cafodd Jones ei recriwtio i weithio gydag Ymgynghorwyr PR Ivy Lee and Associates yn Efrog Newydd yn gynnar yn 1931. Yn Awst 1931 anfonwyd ef gyda Jack Heinz III i adrodd ar y cynlluniau pum mlynedd yn yr Undeb Sofietaidd, lle gwelodd gyflwr y wlad yn dirywio. Gwnaeth gyfweiliad hefyd â gweddwr Lenin, Nadezhda Krupskaya, a chyhoeddodd ei adroddiad yn y *Western Mail*.

Ar ôl dychwelyd i Brydain gweithiodd Jones i Lloyd George am gyfnod byr cyn mynd i deithio eto yn Ewrop gan ysgrifennu ar gyfer y *Western Mail*. Roedd yn Leipzig ar 30 Ionawr 1933 pan ddaeth Hitler yn Ganghellor, a theithiodd i Berlin lle cafodd gyfle i gwrdd ag ysgrifennydd Hitler a'i wahodd i hedfan gyda'r Fuhrer yn ei awyren breifat i rali yn Frankfurt. Dyna sail ei ysgrif 'With Hitler across Germany' a gyhoeddwyd yn y *Western Mail* ar 28 Chwefror 1933.

Ym Mawrth 1933 aeth Jones i'r Undeb Sofietaidd i weld drosto'i hun y newyn o waith dynion y buasai'n ymchwilio iddo ers peth amser. Ar ôl bod ym Mosgo treuliodd sawl diwrnod yn cerdded drwy ddwyrain yr Wcráin gan wneud nodiadau manwl yn ei ddyddiaduron ar effeithiau'r prinder bwyd a'r braw ehangach. Ar 29 Mawrth 1933 cyhoeddwyd erthygl ganddo mewn papurau newyddion ym Mhrydain ac America yn datgelu i'r byd y dioddefaint enbyd a diangen a welodd yn yr Undeb Sofietaidd, er i rai newyddiadurwyr a weithiai ym Mosgo fel Walter Duranty o'r *New York Times* geisio tansilio ei adroddiad.

O Ebrill 1933 i haf 1934 gweithiodd Jones fel newyddiadurwr ar y *Western Mail* yng Nghaerdydd. Yn Hydref 1934 cychwynnodd ar 'Daith o amgylch y Byd' a fyddai'n arwain at gyfres o erthyglau ar UDA o dan Roosevelt, Siapan, Ynysoedd y Philipinau, Singapôr, Cambodia a Tsieina. Tra'n teithio ym Mongolia cafodd ei ddal gan filwyr Siapaneaidd. Pan ryddhawyd

ef cafodd ei anfon ar hyd llwybr honedig ddiogel trwy ardal banditiaid, lle cafodd ei herwgipio a'i ddal am un niwrnod ar bymtheg. Saethwyd ef yn farw yn Nhalaith Chahar, Tsieina, ar 12 Awst 1935, noswyl ei ben-blwydd yn ddeg ar hugain oed. Roedd Llywodraeth Prydain yn amau'n fawr mai'r awdurdodau Sofietaidd oedd yn gyfrifol am ei farwolaeth, er bod amheuon hefyd fod Siapan â rhan ynddi. Claddwyd ei lwch ym mynwent Merthyr Dyfan, y Barri.

Ar ôl ei farwolaeth cydweithiodd y *Western Mail* ag ymgyrch i godi arian am ysgoloriaeth er cof amdano, gan gynnwys cyhoeddi detholiad o ysgrifau Jones, *In Search of News*.

Rhodddwyd papurau Gareth Jones, gan gynnwys y dyddiaduron lle cadwodd nodiadau ar gyfer ei erthyglau, i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gan ei nith, Dr Margaret Siriol Colley. Digidwyd detholiad o'r ffeiliau gyda chymorth gan Sefydliad Hawliau Dinesig Wcrainiaid Canada, Cynghrair Genedlaethol Merched Wcrainiaid America a Sefydliad Teulu Temerty. Yn 2006 dadorchuddiwyd plac yn yr Hen Goleg, Aberystwyth, yn coffáu ei ran yn datgelu'r Holdomor yn yr Wcráin, ac yn 2008 dyfarnwyd iddo Urdd Teilyngdod yr Wcráin.

## Awdur

Rob Phillips

## Ffynonellau

Archifau LIGC: [Gareth Vaughan Jones Papers](#)

Margaret Siriol Colley, Nigel Linsan Colley, Naomi Field (gol.), *More than a grain of truth: the biography of Gareth Richard Vaughan Jones* (London 2020)

Ray Gamache, *Gareth Jones: Eyewitness to the Holodomor* (Cardiff 2018)

Nicholas Hall, [Jones, Gareth Richard Vaughan \(1905–1935\)](#), *Oxford Dictionary of National Biography*

## Darllen Pellach

Archifau LIGC: [Gareth Vaughan Jones](#)

Margaret Siriol Colley, *More than a grain of truth: the biography of Gareth Richard Vaughan Jones* (London 2020)

Ray Gamache, *Gareth Jones: Eyewitness to the Holodomor* (Cardiff 2018)

Martin Shipton, *Mr Jones - The Man Who Knew Too Much: The Life and Death of Gareth Jones* (Cardiff 2021)

Ray Gamache, *Gareth Jones: On Assignment in Nazi Germany 1933-34* (Cardiff 2021)

Gwefan [Gareth Richard Vaughan Jones, Hero of Ukraine, \(1905 -1935\)](#), cyrchwyd Awst 2020

Erthygl Wicipedia: [Gareth Jones](#)

## Delweddau

Archifau LIGC: [Gareth Jones Aged 6](#)

Archifau LIGC: [Gareth With His Mother Circa 1911](#)

Archifau LIGC: [Passport of Gareth Vaughan Jones, 1921-1930](#)

Archifau LIGC: [Gareth as a student 1927](#)

Archifau LIGC: [Portrait of Gareth Jones 1927](#)

Archifau LIGC: [Gareth Vaughan Jones circa 1930](#)

Archifau LIGC: [Passport of Gareth Vaughan Jones, 1930-1934](#)

Archifau LIGC: [Gareth Vaughan Jones in California 1934](#)

Archifau LIGC: [Outdoor Portrait of Gareth Vaughan Jones Circa 1934](#)

Archifau LIGC: [Portrait of Gareth Vaughan Jones 1934](#)

Archifau LIGC: [Gareth in Bangkok 1935](#)

Archifau LIGC: [Gareth at the magnificent site at Borobudur 1935](#)

## Sain a Ffilm

CERES at Munk: [Preserving the Gareth Jones Papers at the University of Toronto](#), April 25, 2022

# Dolenni Ychwanegol

VIAF: [42997185](#)

Wikidata: [Q741120](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2023-02-22

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

